Newyddion

Cae'r Gors: Canolfan Dreftadaeth Kate Roberts

Ebrill 2011

Almaenwyr yn ymweld â Chae'r Gors

gan Arfon Rhys

Myfyrwyr o Brifysgol Heinrich Heine, Dusseldorf

Ymwelodd grŵp o fyfyrwyr o Brifysgol Heinrich Heine yn Duesseldorf gyda Chae'r Gors ym mis Mawrth. Roeddynt yn awyddus i ddysgu am hanes a diwylliant Cymru fel rhan o'u cwrs astudiaethau Saesneg. Nid oedd y rhan fwyaf ohonynt wedi clywed am Gymru o'r blaen, ac nid eu hathro Herr Unterweg yn gwybod am unrhyw lenor Cymreig heblaw am y bardd Dylan Thomas. Felly roedd wedi gofyn i Goleg Harlech Cymdeithas y Gweithwyr am drefnu gwersi iddynt am Gymru. Tybiwyd mai'r ffordd orau o gyflwyno llenyddiaeth y Cymry iddynt oedd dod a hwy am y dydd i Gae'r Gors. Cawsant gyfle yno i ddysgu am frenhines ein llên Kate Roberts, gan fod ei gwaith wedi ei gyfieithu i'r Almaeneg. Nodwedd bwysig o'r ymweliad oedd i weld cartref Kate Roberts sydd yn esiampl o dyddyn nodweddiadol o'i gyfnod. Dysgasant am fywyd y tyddynwr ac am waith y chwarelwr yn yr arddangosfa sydd yng Nghae'r Gors. Erbyn diwedd y dydd roeddynt yn gallu ynganu sawl gair Cymraeg gan gynnwys Llanfairpwllgwyngyllllandysylio gogogoch!

Ymateb yr Almaenwyr oedd dweud eu bod i gyd bellach yn ffans o Gymru ac am ddod yn ôl yma eto i ddysgu fwy am y wlad a'i phobl.

Cylch Ti a Fi Cae'r Gors

Wedi cyfarfod ar Ebrill 1af gyda mamau lleol, Swyddog Datblygu MYM a Swyddog Maes Twf Arfon, penderfynwyd ail gychwyn Cylch Ti a Fi yng Nghae'r Gors. Bydd sesiynau wythnosol yn cael eu cynnal yn y Caban ar ddyddiau Gwener rhwng 1:30 a 3 y p'nawn.

Mai 20fed: Sesiwn Cylch Ti a Fi cyntaf. Rhwng 1:30 a 3 y p'nawn. Llyfr am ddim i bob plentyn.

Croeso cynnes i bawb.

Bu ysgolion Rhosgadfan a Rhostryfan yn brysur iawn yn coginio ar Ddydd Mawrth Ynyd. Diolch yn fawr i Eryl am gynnal gweithdy arbennig ar eu cyfer.

Gweithdai Ysgolion

Braf iawn oedd cael croesawu nifer o bobl ifanc yr ardal i weithdai yng Nghae'r Gors dros dymor y gwanwyn.

Daw tymor yr haf a chyfres arall o weithdai addysgol ar gyfer disgyblion y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Alweddol 2.

Dyma beth sydd ar y gweill:

Cyfnod Sylfaen:

Taith Moel Tryfan gyda Dewi Tomos
£3.50 y pen

Cyfle i weld sut mae dyn yn defnyddio'r tir mewn gwahanol fyrdd a bod gwahanol gynefinoedd i'w cael; eu bod yn edrych yn whanol a bod bywyd gwyllt ynddynt.

Chwedl Cantre'r Gwaelod gydag Eryl Thomas
£3.50 y pen

Cyflwyniad amlgyfrwng o hen chwedl draddodiadol o Gymru.

Te Parti Ddoe a Heddiw yng nghwmni Eryl Thomas a Megan Lloyd Williams
£4 y pen

Cyflwyno a chymharu paratoi te parti cyfoes â the parti o gychwyn yr 20fed ganrif; cyfnod Begw a Winni Ffinni Hadog. Bwyd a diod yn gynwysedig.

Cyfnod Allweddol 2:

Dilyn Afon gyda Dewi Tomos
Cwrs diwrnod £4 y pen

Cyfle i ddysgu am nodweddion afon a chwblhau taith ddiogel.

Cynefinoedd gyda Dewi Tomos
Cwrs diwrnod £4 y pen

Deall natur yr amrywiaeth o gynefinoedd ar wahanol ddefnydd tir mewn ardal chwarelyddol.

Am fwy o wybodaeth am y cyrsiau hyn ffoniwch y Ganolfan ar 01286 831 715 neu e-bostiwch post@caergors.org

Syrjeri Heddlu - Croeso i bawb

Bu Ian Rooksby; Swyddog Cefnogi Cymuned Heddlu Gogledd Cymru, draw yn y Ganolfan ar fore Llun Ebrill 11eg ar gyfer syrjeri Heddlu. Dyma gyfle i gymdogion lleol ddod i drafod materion sy'n eu poeni mewn ffurf anffurfiol a chyfrinachol.

Mai 16eg - Syrjeri Heddlu yng Nghaban Cae'r Gors am 11 y bore

Mehefin 20fed - Syrjeri Heddlu yng Nghaban Cae'r Gors am 11 y bore

Gardd Cae'r Gors

Bu Sion Griffiths yn brysur yn ddiweddar yn twtio'r Ardd yn barod ar gyfer yr Haf. Mae'r rhiwbob yn dod yn ei flaen yn dda iawn, a gobeithiwn yn ystod y misoedd nesaf y bu llu o flodau a llysiau yn ymddangos.

Diolch i Sion am ei waith.

Digwyddiadau i ddod...

ORIAU AGOR / TAL MYNEDIAD ARFEROL USUAL OPENING HOURS / ENTRANCE FEE

AM FWY O WYBODAETH CYSYLLTWCH Â / FOR MORE INFORMATION CONTACT:
CAE'R GORS, CANOLFAN DREFTADAETH KATE ROBERTS, RHOSGADFAN, CAERNARFON
01286 831715 POST@CAERGORS.ORG

Cynhelir Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol Cae'r Gors

& Lansiad gwefan newydd yng Nghae'r Gors nos Iau Mai 19eg am 7 yr hwyr.

Dydd Sul 17eg Ebrill

Grwp Ramblers yn ymweld.

Ebrill 19eg - 30ain

Gweithgareddau'r Pasg.

Dydd Sul Mai 1af

Trip Ysgol Sul a chymuned Ruthun yn ymweld. Bydd Russell Byw yn yr Ardd yma, ac yn arwain y grwp ar daith gerdded i dyddyn Tal-y-Braich.

Nos Fercher Mai 4ydd

Merched y Wawr Abersoch yn ymweld.

Gwerthfawrogwn yn fawr iawn unrhyw help llaw gan wirfoddolwyr ar gyfer y dyddiadau uchod drwy groesawu ymwelwyr, a pharatoi paned.

Anelwn at gynnig profiad gwerth chweil i'n holl ymwelwyr.

Cysylltwch â Dawn neu Nia er mwyn rhoi eich enw ymlaen.

01286 831 715

post@caergors.org

Diolch!